



Chwaraeon Anabledd Cymru

Adroddiad Tueddiadau Data 10 Mlynedd Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Cymunedol

Mawrth 2013 - Medi 2023



Adroddiad Tueddiadau Data 10 Mlynedd Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Cymunedol: Mawrth 2013 - Medi 2023

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn ar dueddiadau data 10 mlynedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol wedi dangos bod llai o gyfranogwyr benywaidd anabl yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol na chyfranogwyr gwrywaidd anabl. Wrth gymharu canran y cyfranogwyr anabl ar draws y grwpiau oedran, canfuwyd hefyd fod cyfranogwyr benywaidd anabl yn llawer llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. O'r herwydd, mae angen gwneud mwy o waith i gynyddu'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu i fenywod anabl i gael mynediad i chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Gallai hyn fod ar ffurf mentrau, ymgyrchoedd, rhaglenni penodol neu glybiau ar gyfer benywod anabl. Dangosodd yr adroddiad tueddiadau data 10 mlynedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol hefyd mai dim ond 10% o'r cyfranogwyr anabl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn eu clwb neu sesiwn leol sy'n siarad Cymraeg, sy'n ffigur is na nifer y bobl anabl sy'n siarad Cymraeg o fewn y boblogaeth gyffredinol (Cyfrifiad, 2021). Felly, mae angen canolbwyntio ar gynyddu nifer y cyfranogwyr anabl o fewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol sy'n siarad Cymraeg. Mae hefyd angen cynyddu nifer y cyfranogwyr anabl mewn cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol sy'n uniaethu fel LGBTQ+ gan fod y nifer hwn dros y 2 flynedd ddiwethaf wedi bod tua 1% o nifer y cyfranogwyr anabl, tra bo'r ffigur hwn yn 6.1% o fewn y boblogaeth anabl gyffredinol (Cyfrifiad, 2021). Ar y llaw arall, mae nifer y cyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol wedi cynyddu i 13%. Yn benodol, mae rhanbarthau Caerdydd a Chanolbarth y De a Gwent lle mae'r prosiect Codi Allan Bod yn Actif wedi creu mwy o gyfleoedd i bobl anabl o gymunedau ethnig amrywiol gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol wedi gweld cynnydd yn nifer y cyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol. Mae hyn, felly, yn tynnu sylw at y ffaith bod y prosiectau hyn yn effeithiol o ran cynyddu nifer y cyfranogwyr mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol. Yn olaf, mae'r gweithlu yn y byd chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol cynhwysol wedi dangos cynnydd yn nifer y bobl anabl. Roedd nifer y bobl anabl sy'n rhan o'r gweithlu sy'n siarad Cymraeg, o gymunedau ethnig amrywiol, ac yn uniaethu fel LGBTQ+ ym mis Medi 2023 yn uchel hefyd.

Cefndir

Deilliodd yr adroddiad tueddiadau data 10 mlynedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol hwn o'r dyhead i ddeall sut mae'r data sy'n ymwneud â phobl anabl wedi newid dros y 10 mlynedd diwethaf, lle gallai fod tebygrwydd yn y data a gofnodwyd dros y 10 mlynedd diwethaf, lle mae cysondeb a thueddiadau o fewn y data'n bodoli o'r 10 mlynedd diwethaf, a beth gellid ei ddysgu o'r data hyn er mwyn gwella profiad pobl anabl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol.

Mae'r adroddiad tueddiadau data 10 mlynedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol wedi ystyried data a gasglwyd gan ddefnyddio'r arolwg chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol a gwblheir ddwywaith y flwyddyn gan gynrychiolydd o glybiau a sesiynau chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol, ynghyd â'r data sy'n cael eu cwblhau gan y swyddog datblygu anabledd o bob awdurdod lleol yng Nghymru yn flynyddol.

Mae'r adroddiad hwn ar dueddiadau data 10 mlynedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol yn dangos nifer y bobl anabl yng Nghymru sy'n cymryd rhan actif mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru o fewn y flwyddyn honno. Mae'r data hyn yn eithriadol bwysig i ddeall effaith y gwaith y mae Chwaraeon Anabledd Cymru yn ei wneud i ddylanwadu ar, a chefnogi, datblygiad cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol i bobl anabl yng Nghymru. Yn ystod blynyddoedd diwethaf, mae'r data sydd wedi cael eu casglu am gyfranogwyr wedi cael eu hehangu i gynnwys casglu data am gyfranogwyr sy'n uniaethu fel rhywedd ar wahân i fenyw neu wryw. Gall hyn gynnwys unrhyw rywedd nad yw'n fenyw neu'n wryw, fel trawsryweddol, niwtral o ran rhywedd, anneuaidd, afrywedd, pararywedd, rhywedd cwiar, dau ysbryd, trydydd rhywedd, ac unrhyw rywedd arall y mae cyfranogwr yn uniaethu ag ef. Mae'r rhain i gyd yn cael eu cynrychioli yn y golofn rhywedd arall. Mewn ffordd debyg, mae'r data wedi cael eu hehangu yn ddiweddar i gynnwys casglu data am nifer y cyfranogwyr anabl sy'n uniaethu fel LGBTQ+.

Yn ogystal, mae'r data chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol hyn yn rhoi dealltwriaeth a gwybodaeth am amrywiaeth presennol y gweithlu o hyfforddwyr, gwirfoddolwyr a swyddogion yng Nghymru. Mae'n rhoi cipolwg ar faint o hyfforddwyr, gwirfoddolwyr a swyddogion yng Nghymru sy'n anabl a lle gallai fod cyfle i wella amrywiaeth y gweithlu hwn. Er enghraifft, gweithio i ehangu nifer y bobl anabl o fewn y gweithlu o hyfforddwyr, gwirfoddolwyr a swyddogion sy'n siarad Cymraeg, yn uniaethu fel LGBTQ+, neu o gymuned ethnig amrywiol.


Data Cyfranogiad Anabl

Mae'r data am gyfranogwyr chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol yn dangos bod tuedd gyson o fewn y ganran o gyfranogwyr anabl benywaidd a gwrywaidd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol dros y cyfnod o 10 mlynedd. Fodd bynnag, fel y manylwyd yn gynharach, mae'r dull o gasglu'r data hyn wedi newid yn ystod y cyfnod o 10 mlynedd a dylid ystyried hyn wrth geisio cael gwybodaeth o'r data chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol.

Nifer y Cyfranogwyr Anabl Dros y 10 Mlynedd Diwethaf

	Cyfanswm Nifer y Cyfranogwyr Anabl	Benywod		Gwrywod		Arall		Yn Siarad Cymraeg		Cymunedau Ethnig Amrywiol		Yn Uniaethu Fel LGBTQI+	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Mawrth 2013	1505	559	37%	946	63%	-	-	561	37%	67	4.5%	-	-
Mawrth 2014	16579	6071	37%	10508	63%	-	-	839	5%	218	1.3%	-	-
Mawrth 2015	17047	6514	38%	10533	62%	-	-	959	5.6%	116	<1%	-	-
Mawrth 2016	22685	8370	37%	14315	63%	-	-	977	4%	290	1.3%	-	-
Mawrth 2017	8523	3158	37%	5365	63%	-	-	679	8%	30	<0.5%	-	-
Mawrth 2018	28500	10502	37%	17998	63%	-	-	1830	6.4%	291	1%	-	-
Mawrth 2019	29239	11068	38%	18171	62%	-	-	2373	8%	370	1.3%	-	-
Mawrth 2020	11520	4708	41%	6812	59%	-	-	1186	10%	267	2.3%	-	-
Mawrth 2021	5062	1832	36%	3230	64%	-	-	432	8.5%	190	3.8%	-	-

Mawrth 2022	8144	3135	39%	4559	56%	450	6%	2369	29%	534	7%	70	1%
Medi 2022	11106	4102	37%	6395	58%	609	6%	1785	16%	426	4%	88	<1%
Mawrth 2023	3015	1071	36%	1903	63%	41	1%	254	8%	103	3%	43	1%
Medi 2023	2613	899	34%	1684	65%	30	1%	325	12%	319	12%	34	1.3%



Cyfranogwyr Benywaidd Anabl

O'r data, mae'n amlwg bod nifer sylweddol uwch o gyfranogwyr gwrywaidd anabl yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol o gymharu â chyfranogwyr benywaidd anabl. Mae'r duedd hon o fwy o gyfranogwyr gwrywaidd anabl mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn gyson dros y cyfnod o 10 mlynedd a archwiliwyd yn yr adroddiad hwn.

Gellir gweld bod y nifer uchaf o gyfranogwyr benywaidd anabl wedi'i gofnodi ym mis Mawrth 2020, gan gofnodi ffigur o 41% o'r cyfranogwyr anabl oedd yn actif fel benywod. Ond roedd y nifer isaf o gyfranogwyr benywaidd anabl yn yr arolwg cymunedol diweddaraf, gyda 35% o'r cyfranogwyr yn fenywod. Felly, mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu bod nifer y cyfranogwyr benywaidd anabl mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol yn lleihau, ac mae angen gwneud mwy o waith i gynyddu nifer y cyfleoedd a chael gwared ar y rhwystrau posibl i fenywod anabl sy'n eu hatal rhag cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Cyfranogwyr Anabl sy'n Siarad Cymraeg

Mae nifer y cyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg mewn clybiau chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol wedi bod ychydig yn anghyson dros y cyfnod o 10 mlynedd. Fodd bynnag, un o'r rhesymau dros yr anghysondeb oedd geiriad y cwestiwn a ddefnyddiwyd yn 2022. Mae'r geiriad wedi cael ei newid ers hynny er mwyn gwella'r eglurder ynghylch nifer y siaradwyr Cymraeg anabl yn y clwb neu'r sesiwn. Mae dileu'r anghysondebau hyn o fewn y ffigurau yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg anabl rhwng 4% a 10% o'r cyfranogwyr anabl sy'n actif mewn lleoliadau cymunedol. Yn ôl Cyfrifiad 2021, 13% yw canran y bobl anabl sy'n siarad Cymraeg o fewn y boblogaeth gyffredinol. Felly, mae nifer y bobl anabl sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gyfranogwyr actif mewn lleoliadau cymunedol yn is na'r boblogaeth gyffredinol. O'r herwydd, mae angen gweithio ar ddatblygu nifer y siaradwyr Cymraeg anabl mewn lleoliadau clybiau cymunedol.

Cyfranogwyr Anabl o Gymunedau Ethnig Amrywiol

Mae nifer y cyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol sy'n cymryd rhan mewn clybiau cymunedol wedi cynyddu dros y 10 mlynedd diwethaf gyda'r ganran uchaf o gyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol yn cael eu cofnodi yn arolwg mis Medi 2023 (13%). Felly, mae hyn yn awgrymu bod mentrau sy'n cael eu rhoi ar waith, fel y prosiect Codi Allan Bod yn Actif (GOGA) mewn cydweithrediad â Street Games i gael mwy o bobl anabl o gymunedau ethnig amrywiol i fod yn actif, wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y cyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn rheolaidd. Mae hyn yn arbennig o wir am Gaerdydd a Chanolbarth y De a rhanbarth Gwent lle'r oedd ffocws prosiect GOGA. Yn rhanbarth Caerdydd a Chanolbarth y De, roedd 30% o'r cyfranogwyr anabl a gymerodd ran mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol yn dod o gymunedau ethnig amrywiol, gan gadarnhau'r effaith gadarnhaol y mae prosiect GOGA wedi ei chael ar bobl anabl o gymunedau ethnig amrywiol.

Cyfranogwyr Anabl sy'n uniaethu fel LGBTQ+

Dim ond ym mis Mawrth 2022 y dechreuodd y gwaith o gofnodi a yw cyfranogwr yn uniaethu fel LGBTQ+ ac mae'r ffigurau hyn yn parhau i fod yn gymharol isel ar 1% neu lai nag 1%. Er mai newydd ddechrau mae'r gwaith o gasglu'r data hyn, mae 6.1% o'r boblogaeth anabl gyffredinol yn uniaethu fel LHDT+ yng Nghymru ac, felly, mae angen darparu mwy o gefnogaeth i bobl anabl mewn cymunedau ethnig amrywiol i fod yn actif yn eu clybiau cymunedol lleol.


Nifer y Cyfranogwyr Anabl Wedi'u Gwahanu yn ôl Oedran

	Cyfanswm	Benywod			Gwrywod			Arall		
		0 i 17 oed	18 i 59 oed	60 + oed	0 i 17 oed	18 i 59 oed	60+ oed	0 i 17 oed	18 i 59 oed	60 + oed
Mawrth 2013	1505	247 (16%)	270 (18%)	42 (3%)	312 (21%)	578 (38%)	56 (4%)	-	-	-
Mawrth 2014	16579	2759 (17%)	2720 (16%)	592 (4%)	5204 (31%)	4070 (25%)	1234 (7%)	-	-	-
Mawrth 2015	17047	3411 (20%)	2656 (16%)	447 (3%)	5879 (35%)	4106 (24%)	548 (3%)	-	-	-
Mawrth 2016	22685	4322 (19%)	5478 (24%)	520 (2%)	7662 (34%)	5478 (24%)	1175 (5%)	-	-	-
Mawrth 2017	8523	1574 (19%)	1386 (16%)	198 (2%)	3046 (36%)	2051 (24%)	268 (3%)	-	-	-
Mawrth 2018	28500	5224 (18%)	4363 (15%)	915 (3%)	8954 (31%)	6884 (24%)	2160 (8%)	-	-	-
Mawrth 2019	29239	5142 (18%)	4699 (16%)	1227 (4%)	8349 (29%)	7444 (26%)	2378 (8%)	-	-	-
Mawrth 2020	11520	1775 (15%)	2260 (20%)	673 (6%)	2881 (25%)	3311 (29%)	620 (5%)	-	-	-
Mawrth 2021	5062	815 (16%)	861 (17%)	156 (3%)	1363 (27%)	1596 (32%)	271 (5%)	-	-	-
Mawrth 2022	8144	1496 (18%)	1125 (14%)	514 (6%)	1948 (24%)	2046 (25%)	565 (7%)	378 (5%)	66 (0.8%)	6 (0.07%)
Medi 2022	11106	1957 (18%)	1699 (15%)	446 (4%)	3394 (31%)	2491 (22%)	510 (5%)	581 (5%)	24 (0.2%)	4 (0.04%)
Mawrth 2023	3015	445 (15%)	385 (13%)	241 (8%)	782 (26%)	727 (24%)	394 (13%)	28 (1%)	13 (0.4%)	-
Medi 2023	2613	451 (17%)	405 (16%)	43 (1.7%)	764 (29%)	830 (32%)	90 (3%)	5 (0.2%)	5 (0.2%)	20 (0.8%)

Mae canran y cyfranogwyr benywaidd anabl yn gyson is na chanran y cyfranogwyr gwrywaidd anabl ar draws y grwpiau oedran.


Cyfranogwyr Anabl rhwng 0 ac 17 oed

Mae canran y cyfranogwyr benywaidd anabl rhwng 0 ac 17 oed yn gyson rhwng 15% ac 20% dros y cyfnod o 10 mlynedd. O gymharu, mae canran y cyfranogwyr gwrywaidd anabl rhwng 0 ac 17 oed yn gyson rhwng 21% a 35% dros y 10 mlynedd, sy'n llawer uwch. Felly, mae hyn yn awgrymu bod benywod anabl rhwng 6% a 15% yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol pan maent rhwng 0 ac 17 oed. Mae'r ffigurau ar gyfer y rhai sy'n uniaethu fel rhywedd ar wahân i fenyw neu wryw yn isel iawn ar hyn o bryd, ond wrth i fwy o ddata gael eu casglu dros y blynyddoedd sydd i ddod, dylai dibynadwyedd a manwl gywirdeb y data hyn wella.




Cyfranogwyr Anabl rhwng 18 a 59 oed

Mae canran y cyfranogwyr benywaidd anabl yn gyson is na chanran y cyfranogwyr gwrywaidd anabl yn y categori 18 i 59 oed. Mae canran y cyfranogwyr benywaidd anabl rhwng 18 a 59 oed yn gyson rhwng 14% ac 20%. O gymharu, mae canran y cyfranogwyr gwrywaidd anabl yn gyson rhwng 24% a 38%. Felly, mae hyn yn awgrymu bod benywod anabl 10% i 18% yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol pan maent rhwng 18 a 59 oed.



Cyfranogwyr Anabl 60+ Oed

Mae canran y cyfranogwyr benywaidd anabl 60+ oed sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn is na chanran y cyfranogwyr gwrywaidd anabl 60+ oed. Roedd canran y cyfranogwyr benywaidd anabl 60+ oed yn gyson rhwng 1.7% ac 8%. O gymharu, roedd canran y cyfranogwyr gwrywaidd anabl yn gyson rhwng 3% a 13%. Nid yw'r bwlch rhwng canran y cyfranogwyr benywaidd a gwrywaidd 60+ oed mor fawr â'r grwpiau eraill, fodd bynnag mae'n parhau i ddangos bod cyfranogwyr benywaidd anabl 60+ oed 1.3% i 5% yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol na chyfranogwyr gwrywaidd anabl 60+ oed.



Data cyfranogiad rhanbarthol

Caerdydd a Chanolbarth y De

	Cyfanswm Nifer y Cyfranogwyr Anabl	Benywod		Gwrywod		Arall		Yn Siarad Cymraeg		Cymunedau Ethnig Amrywiol		Yn Uniaethu Fel LGBTQI+	
		Nifer	Procent	Nifer	Procent	Nifer	Procent	Nifer	Procent	Nifer	Procent	Nifer	Procent
Mawrth 2022	534	214	40%	320	60%	0	-	264	49%	91	17%	11	2%
Medi 2022	1828	600	33%	1041	57%	187	10%	94	5%	9	0.5%	1	<1%
Mawrth 2023	714	271	38%	411	58%	32	5%	13	2%	44	6%	5	<1%
Medi 2023	865	318	37%	540	62%	7	<1%	23	3%	258	30%	9	1%

Dangosodd data Caerdydd a Chanolbarth y De bod canran y benywod anabl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol yn unol â data cyffredinol Cymru ac yn yr un modd mae'r cyfranogwyr anabl sy'n uniaethu fel LGBTQI+ hefyd yn unol â'r data cenedlaethol. Mae canran y cyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg yn is na'r ganran genedlaethol ar ddim ond 3%. Fodd bynnag, mae canran y cyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol yn sylweddol uwch yn rhanbarth Caerdydd a Chanolbarth y De o gymharu â'r data cenedlaethol a'r rhanbarthau eraill yng Nghymru. Felly, un o'r prosiectau a awgrymir ar gyfer datblygu cyfranogiad cymunedol pobl anabl yng Nghaerdydd a Chanolbarth y De yw cynyddu nifer y cyfranogwyr benywaidd anabl, y cyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg, a'r cyfranogwyr anabl sy'n uniaethu fel LGBTQI+.

Gwent

	Cyfanswm Nifer y Cyfranogwyr Anabl	Benywod		Gwrywod		Arall		Yn Siarad Cymraeg		Cymunedau Ethnig Amrywiol		Yn Uniaethu Fel LGBTQI+	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Mawrth 2022	1097	319	29%	608	55%	170	16%	333	30%	36	3%	5	0.5%
Medi 2022	770	179	23%	591	77%	0	-	48	6%	40	5%	9	1%
Mawrth 2023	380	167	44%	213	56%	0	-	0	-	8	2%	0	-
Medi 2023	328	114	35%	214	65%	0	-	5	1.5%	32	10%	0	-

Mae'r data rhanbarthol ar gyfer Gwent wedi dangos bod canran y cyfranogwyr benywaidd anabl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol yn unol â'r data cenedlaethol. Fodd bynnag, mae canran y cyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg yn 1.5%, sy'n sylweddol is na'r ffigur cenedlaethol a'r hyn a ddisgwylir o ystyried bod 13% o'r boblogaeth anabl gyffredinol yng Nghymru yn siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad, 2021) a'r ganran gyffredinol o siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd yn 7.5% (Cyfrifiad, 2021). O'r herwydd, mae angen archwilio sut gellid cynyddu nifer y cyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg yn rhanbarth Gwent. Yn yr un modd, roedd y ffigurau ar gyfer nifer y cyfranogwyr anabl sy'n uniaethu fel LGBTQ+ yn rhanbarth Gwent yn eithriadol isel gyda'r ddwy set o ddata o 2023 yn cael eu cofnodi fel sero. Mae angen sylweddol i gynyddu nifer y cyfleoedd a'r prosiectau sy'n cefnogi cyfranogwyr LGBTQ+ anabl yn rhanbarth Gwent. Ar y llaw arall, roedd canran y cyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol yn uwch yn rhanbarth Gwent na'r boblogaeth genedlaethol. Felly, mae hyn yn awgrymu bod prosiectau fel GOGA sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y cyfleoedd i bobl anabl o gymunedau ethnig amrywiol wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y bobl anabl o gymunedau ethnig amrywiol mewn lleoliadau cymunedol.

Canolbarth Cymru

	Cyfanswm Nifer y Cyfranogwyr Anabl	Benywod		Gwrywod		Arall		Yn Siarad Cymraeg		Cymunedau Ethnig Amrywiol		Yn Uniaethu Fel LGBTQI+	
		Nifer	Procent	Nifer	Procent	Nifer	Procent	Nifer	Procent	Nifer	Procent	Nifer	Procent
Mawrth 2022	961	345	36%	616	64%	0	-	221	23%	67	7%	11	1.1%
Medi 2022	1611	672	42%	939	58%	0	-	332	21%	147	9%	21	1.3%
Mawrth 2023	630	187	30%	443	70%	0	-	17	3%	2	<1%	2	<1%
Medi 2023	46	15	33%	31	67%	0	-	12	26%	2	4%	2	4%

Dangosodd y data rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru ganran ychydig yn is o gyfranogwyr benywaidd anabl yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol, o gymharu â'r data cenedlaethol. Yn yr un modd, roedd canran y cyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol hefyd yn is na'r ffigurau cenedlaethol. Ar y llaw arall, roedd nifer y cyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg yn sylweddol uwch na'r ffigur cenedlaethol a'r rhanbarthau eraill, ac roedd yn sylweddol uwch na'r ffigur o 13% a gofnodwyd ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith y boblogaeth anabl gyffredinol yng Nghymru (Cyfrifiad, 2021). Roedd canran y cyfranogwyr anabl oedd yn uniaethu fel LGBTQI+ oedd yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol yn uwch na'r ffigur cenedlaethol. Fodd bynnag, wrth archwilio'r ffigurau hyn dylid ystyried bod nifer y cyfranogwyr a'r clybiau cymunedol a gwblhaodd yr arolwg ym mis Medi 2023 yn llawer is na'r disgwyl. O ganlyniad, mae angen ystyried ffyrdd o wella'r gyfradd gwblhau yn rhanbarth Canolbarth Cymru.

Gogledd Cymru

	Cyfanswm Nifer y Cyfranogwyr Anabl	Benywod		Gwrywod		Arall		Yn Siarad Cymraeg		Cymunedau Ethnig Amrywiol		Yn Uniaethu Fel LGBTQI+	
Mawrth 2022	1536	598	39%	799	52%	139	9%	108	7%	94	6%	12	<1%
Medi 2022	2022	628	31%	997	49%	397	20%	925	46%	157	8%	24	1.2%
Mawrth 2023	654	247	38%	403	62%	4	<1%	186	28%	30	5%	20	3%
Medi 2023	887	335	38%	549	62%	3	<1%	244	28%	21	2%	12	1.35%

Roedd y data rhanbarthol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru yn dangos bod canran y cyfranogwyr benywaidd anabl yn 38%, sy'n cyd-fynd â'r ffigurau cenedlaethol. Yn yr un modd, mae nifer y cyfranogwyr anabl sy'n uniaethu fel LGBTQI+ yn 1.35%, sydd hefyd yn debyg i'r data cenedlaethol. Roedd canran y cyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg yn sylweddol uwch yng Ngogledd Cymru ar 28% o gymharu â'r data cenedlaethol a'r rhanbarthau eraill yng Nghymru (ac eithrio Canolbarth Cymru). Roedd canran y cyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol yn rhanbarth Gogledd Cymru yn 2%, sy'n sylweddol is na'r data cenedlaethol. Yng Ngogledd Cymru, o blith y boblogaeth gyffredinol, mae 4.3% o gymunedau ethnig amrywiol. O ystyried bod canran y bobl anabl o gymunedau ethnig amrywiol sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn llawer is, sef 2%, mae angen archwilio sut i gynyddu nifer y cyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Gorllewin Cymru

	Cyfanswm Nifer y Cyfranogwyr Anabl	Benywod		Gwrywod		Arall		Yn Siarad Cymraeg		Cymunedau Ethnig Amrywiol		Yn Uniaethu Fel LGBTQI+	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Mawrth 2022	4790	1930	40%	2720	57%	140	3%	1619	34%	268	6%	25	<1%
Medi 2022	3590	1472	41%	2115	59%	3	<1%	205	6%	71	2%	31	<1%
Mawrth 2023	637	199	31%	433	68%	5	<1%	34	5%	17	3%	10	2%
Medi 2023	432	109	25%	323	75%	0	-	33	8%	18	4%	11	3%

Dangosodd y data rhanbarthol ar gyfer rhanbarth Gorllewin Cymru mai 25% a 31% oedd nifer y cyfranogwyr benywaidd anabl yn 2023, a oedd yn sylweddol is na'r data cenedlaethol, sef 35% a 36%. Felly, mae'n awgrymu bod mwy o waith i'w wneud i gynyddu'r gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i gyfranogwyr anabl benywaidd i gael mynediad i glybiau cymunedol a chyfleoedd gweithgarwch corfforol. Roedd canran y cyfranogwyr anabl yng Ngorllewin Cymru sy'n siarad Cymraeg yn 8%, a oedd ychydig yn is na'r ffigur cenedlaethol o 10%. Yn yr un modd, roedd canran y cyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol yn 4%, sy'n is na'r ffigur cenedlaethol o 13%. Fodd bynnag, roedd canran y cyfranogwyr anabl sy'n uniaethu fel LGBTQ+ yn 3%, a oedd yn uwch na'r ffigur cenedlaethol o 1.3%. Amlygodd y data rhanbarthol hyn ar gyfer rhanbarth Gorllewin Cymru felly bod angen rhoi cefnogaeth bellach i gyfranogwyr benywaidd anabl i fanteisio ar gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol, ynghyd â chefnogi mwy o gyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg a chyfranogwyr o gymunedau ethnig amrywiol i gael mynediad i chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Gweithlu amrywiol a chynhwysol

Mawrth 2021	Benywod Anabl		Gwrywod Anabl	
Hyfforddwyr	72	9%	98	9%
Swyddogion	54	25%	23	9%
Gwirfoddolwyr	54	6%	64	7%
Cyfanswm y Gweithlu	180	9%	184	8%

Mawrth 2022	Benywod Anabl		Gwrywod Anabl		Anabl Arall	
Hyfforddwyr	50	11%	78	13%	0	
Swyddogion	26	15%	23	16%	0	
Gwirfoddolwyr	42	10%	46	13%	1	<1%
Cyfanswm y Gweithlu	118	11%	147	13%	1	<1%

Medi 2022	Anabl		Dim Anabledd		Yn Siarad Cymraeg		Cymunedau Ethnig Amrywiol		Yn Uniaethu Fel LGBTQI+	
Cyfanswm y Gweithlu o hyfforddwy, swyddogion a gwirfoddolwyr	271	15%	1536	85%	515	29%	39	2%	41	2%

Mawrth 2023	Anabl		Yn Siarad Cymraeg		Cymunedau Ethnig Amrywiol		Yn Uniaethu Fel LGBTQI+			
Hyfforddwy	128	12%								
Swyddogion	49	15%								
Gwirfoddolwyr	89	11%								
Cyfanswm y Gweithlu	266	12%	368	17%	38	1.7%	33	1.5%		

Medi 2023	Anabl		Dim Anabledd		Anabl yn Siarad Cymraeg		Anabl Cymunedau Ethnig Amrywiol		Anabl Yn Uniaethu Fel LGBTQI+	
Cyfanswm y Gweithlu o hyfforddwy, swyddogion a gwirfoddolwyr	185	23%	622	77%	46	25%	23	12%	25	14%

Dros y tair blynedd diwethaf mae nifer y bobl anabl ymhlith y gweithlu chwaraeon cynhwysol wedi bod yn weddol gyson ar 17% ym mis Mawrth 2021, 24% ym mis Mawrth 2022, 15% ym mis Medi 2022, 12% ym mis Mawrth 2023, a 23% ym mis Medi 2023. Mae'r ffigurau hyn, ar adegau, ychydig yn is na chanran y bobl anabl o fewn y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru, sef 21.1% (Cyfrifiad, 2021). Felly, mae'n bosibl bod rhywfaint o waith i'w wneud i sicrhau bod nifer y bobl anabl yn y gweithlu chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn gyson sefydlog ar tua 21%.

Nododd data'r arolwg chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol fod 25% o'r gweithlu anabl yn siarad Cymraeg ym mis Medi 2023. Byddai hyn yn awgrymu bod canran y bobl anabl o fewn gweithlu'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol sy'n gallu siarad Cymraeg yn uwch na chanran y boblogaeth anabl gyffredinol sy'n gallu siarad Cymraeg, gan fod y ganran hon yn 13% (Cyfrifiad, 2021). Yn yr un modd, roedd canran y gweithlu anabl sy'n uniaethu fel LGBTQ+ yn uwch na'r boblogaeth anabl gyffredinol yng Nghymru sy'n uniaethu fel LGBTQ+ gan fod y ganran hon yn 6.1% (Cyfrifiad, 2021). Mae'r ffigur hwn ar gyfer pobl anabl yn uwch ar 6.1% o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl yn y boblogaeth gyffredinol sy'n uniaethu fel LGBTQ+ gan fod y ganran hon yn 2.5% (Cyfrifiad, 2021). Fodd bynnag, dylid adolygu'r ganran o'r gweithlu anabl sy'n uniaethu fel LGBTQ+ eto ar ôl yr arolwg cymunedol nesaf, gan fod y ffigur hwn wedi bod yn llawer is yn flaenorol ac mae'n bosibl bod y ffigur o fis Medi 2023 wedi bod yn anomaledd. Fel arall, er efallai nad yw'r prosiect GOGA sydd wedi cael ei gyllido ar y cyd gan Pride Cymru i gynyddu nifer y cyfranogwyr anabl sy'n uniaethu fel LGBTQ+ wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y cyfranogwyr, efallai ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y bobl anabl sy'n uniaethu fel LGBTQ+ sy'n rhan o'r gweithlu.

Canran y gweithlu anabl sy'n dod o gymunedau ethnig amrywiol oedd 12%, sy'n ffigur tebyg i ganran y cyfranogwyr anabl sy'n dod o gymunedau ethnig amrywiol, sef 13%. Mae hyn mewn ffordd debyg i ganran y cyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol yn uwch na'r hyn a gofnodwyd yn flaenorol, felly gallai prosiect GOGA fod yn cael effaith fuddiol hefyd ar nifer y bobl anabl o gymunedau ethnig amrywiol sydd o fewn y gweithlu.

Casgliad

I gloi, mae'r adroddiad tueddiadau data 10 mlynedd hwn ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol wedi dangos bod benywod anabl yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ac mae hyn yn gyson dros y 10 mlynedd diwethaf o gasglu data. O'r herwydd, awgrymwyd bod angen gwneud mwy i ddarparu cefnogaeth i fenywod anabl i gynyddu nifer y cyfranogwyr benywaidd anabl mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae hyn yn gyson wrth rannu'r data yn ôl oedran y cyfranogwyr anabl. Er bod rhywfaint o amrywiad ar draws yr oedrannau yn y gwahaniaeth canrannol rhwng cyfranogwyr benywaidd a gwrywaidd anabl, mae'r cyfranogwyr benywaidd anabl yn llai tebygol yn gyson o gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Roedd y ffigurau hyn yn debyg wrth gymharu'r data ar draws y pum rhanbarth yng Nghymru, gyda'r ganran ar gyfer Gorllewin Cymru yn arbennig o isel.

Er hynny, mae canran y cyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg wedi bod yn cynyddu, ond mae rhai anghysondebau o fewn hyn ac mae'n parhau yn is na chanran y boblogaeth anabl yn gyffredinol a byddai'n elwa o fentrau i gynyddu nifer y cyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg. Mae'r ffigur hwn yn arbennig o isel yng Nghaerdydd a Chanolbarth y De, Gwent a Gorllewin Cymru.

Mae canran y cyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol wedi cynyddu, yn enwedig yn y rhanbarthau (Caerdydd a Chanolbarth y De a Gwent) lle mae prosiect Codi Allan Bod yn Actif wedi canolbwyntio ar ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl anabl o gymunedau ethnig amrywiol. Mae hyn yn tynnu sylw at fanteision prosiectau fel y prosiect Codi Allan Bod yn Actif (GOGA) a'r manteision y gall eu sicrhau i bobl anabl a'u lefelau cyfranogiad. Fodd bynnag, er bod prosiect GOGA yn darparu cyfleoedd i bobl anabl sy'n uniaethu fel LGBTQ+ gymryd rhan mewn mwy o gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol, nid yw hyn wedi cael effaith ar ganran y cyfranogwyr anabl sy'n uniaethu fel LGBTQ+, dim hyd yn oed yng Ngogledd Cymru lle'r oedd ffocws y prosiect GOGA penodol hwnnw.

Mae ffigurau'r gweithlu anabl wedi dangos gwelliant dros y tair blynedd diwethaf gyda chanran uwch o'r gweithlu sy'n cefnogi cyfleoedd cymunedol cynhwysol yn anabl. Mae'r ffigurau gweithlu hyn wedi cynyddu ar gyfer pobl sy'n siarad Cymraeg, pobl o gymunedau ethnig amrywiol, a phobl sy'n uniaethu fel LGBTQ+. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol i'r gweithlu ym maes cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol cynhwysol.



Er mwyn sicrhau cynnydd yn y ffigurau cymunedol, mae'r adroddiad tueddiadau data hwn wedi dangos bod angen gwella ymhellach y cyfleoedd cyfranogiad ar gyfer benywod anabl, ar gyfer pobl anabl sy'n siarad Cymraeg, ac ar gyfer pobl sy'n uniaethu fel LGBTQ+. Awgrymwyd hefyd feysydd i'w datblygu ar gyfer pob un o'r pum rhanbarth.

